

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

Adolygiad o Drefniadau Deisebau
Cyhoeddus

Chwefror 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

**Adolygiad o Drefniadau Deisebau
Cyhoeddus**

Chwefror 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Deisebau

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



William Powell (Cadeirydd)
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cefndir.....	8
Cyflwyniad.....	8
Trefniadau Deisebau Presennol yn y Cynulliad.....	8
Cylch Gorchwyl.....	9
Ymdriniaeth.....	9
Ymgynghoriad	9
2. Materion yn ymwneud â Derbniadwyedd	11
Deisebau y tu allan i Bwerau'r Cynulliad i'w Datrys	11
Y sefyllfa bresennol	11
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	11
Ein barn ni.....	11
Cyfrifoldebau Gweithredol Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd	12
Y sefyllfa bresennol	12
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	12
Ein barn ni.....	13
Isafswm nifer y llofnodion angenrheidiol.....	13
Y sefyllfa bresennol	13
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	13
Ein barn ni.....	14
Cymhwysedd i gyflwyno a llofnodi deisebau.....	14
Y sefyllfa bresennol	14
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	14
Ein barn ni.....	15
Cyfyngiadau eraill o ran testun a deisebwyr.....	16
Cefndir a Sefyllfa Bresennol	16
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	17
Ein barn ni.....	18

3. Cyfrifoldeb dros Dderbyniadwyedd.....	19
Cefndir a Sefyllfa Bresennol	19
Barn o'r Ymgynghoriad.....	19
Ein barn ni.....	19
4. Ymdrin â Deisebau Derbyniadwy	21
Cefndir a Sefyllfa Bresennol	21
Y problemau a godwyd	21
Blaenoriaethu deisebau.....	21
Ein barn ni.....	22
Pwerau'r Pwyllgor	23
Ein barn ni.....	23
Mynd i Gyfarfodydd	24
Ein barn ni.....	24
Cyfrifoldeb dros symud Deisebau yn eu blaen.....	25
Ein barn ni.....	25
Cyfeirio Deisebau i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill	26
Ein barn ni.....	26
Materion Eraill	27
Ein barn ni.....	27
5. Newidiadau i Reolau Sefydlog.....	29
Atodiad A - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Trosolwg o'r System Deisebau Cyhoeddus.....	30
Atodiad B - Cyfrifoldeb dros Ystyried Argymhellion	38
Tystion	41
Ymatebion i'r Ymgynghoriad.....	42

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a chasgliadau ategol:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylid ystyried caniatâu i system ddeisebau ar-lein y Cynulliad gael ei defnyddio i gasglu llofnodion ar faterion sydd heb eu datganoli sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, dim ond deisebau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru ddylai gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Deisebau i'w hystyried. (Tudalen 12)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell na ddylid gwneud unrhyw newid i'r meini prawf derbyniadwyedd mewn cysylltiad â deisebau sy'n ymwneud â phenderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol. (Tudalen 13)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell cael gwared ar y trothwy deuol presennol ar gyfer llofnodion a bod y trothwy ar gyfer ystyried unrhyw ddeiseb yn cael ei godi i 50 o lofnodion. (Tudalen 14)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell mai dim ond pobl sy'n byw yng Nghymru neu sefydliadau sydd â swyddfa yng Nghymru ddylai allu cyflwyno deisebau. Ni ddylid cael cyfyngiadau ar y rhai sydd am lofnodi deiseb. (Tudalen 16)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried a ddylai swyddogion y Cynulliad allu cymryd rhan yn y broses ddeisebau, o ystyried yr angen iddynt gael eu gweld i fod yn wleidyddol ddiuedd. (Tudalen 16)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell peidio â gwneud newidiadau i'r materion a nodir ym mharagraff 38 ond yn gofyn i swyddogion adolygu'r canllawiau presennol yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'u bod hefyd yn ystyried sut y gellir eu gwneud yn fwy hygyrch. (Tudalen 18)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar dderbyniadwyedd deisebau gael ei roi i'r Pwyllgor

Deisebau newydd ar y sail y byddai, wedyn yn dirprwyo'r gwaith dydd i ddydd i Glerc y Pwyllgor Deisebau. (Tudalen 20)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell i'r Pwyllgor newydd yn y Pumed Cynulliad y dylai:

- ddatblygu meini prawf clir ar gyfer blaenoriaethu deisebau;
- ystyried cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn yn awtomatig ar unrhyw ddeiseb sy'n cyrraedd trothwy llofnodion (efallai bod ffigur o 10,000 o lofnodion yn briodol); a
- chau deisebau cyn gynted ag y daw'n amlwg na ellir eu datrys. (Tudalen 23)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell peidio â newid pwerau'r Pwyllgor na rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i gau deisebau. (Tudalen 23)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Y Pwyllgor Busnes yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes newydd sicrhau bod slot Y Pwyllgor Deisebau newydd yn ddigon hyblyg i ganiatâu i ragor o gyfarfodydd gael eu cynnal y tu allan i'r Senedd er mwyn ei gwneud yn haws i raglennu tystiolaeth lafar, yn arbennig gan Weinidogion. (Tudalen 25)

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad gael eu gwneud yn fwy clir er mwyn caniatâu i'r Pwyllgor Deisebau drosgwlyddo cyfrifoldeb dros ddeiseb (gan gynnwys ei chau) i un o bwyllgorau eraill y Cynulliad. (Tudalen 25)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai'r protocol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei adnewyddu a'i ddiwygio er mwyn bod yn glir o ran yr amgylchiadau y gallai'r Pwyllgor gyfeirio deiseb i'r Ombwdsmon i'w hystyried yn ffurfiol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai protocolau gael eu datblygu gyda'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfydol yn ymwneud â'r gefnogaeth y gallent ei rhoi i'r Pwyllgor wrth ystyried deisebau ac o dan ba amgylchiadau y gallai'r Pwyllgor gyfeirio deisebau iddynt i'w hystyried yn ffurfiol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai deisebau papur a deisebau a gesglir yn defnyddio hwyluswyr deisebau ar-lein barhau i gael eu derbyn ar yr amod eu bod yn dderbyniadwy ac nad oes pryder ynghylch dilysrwydd y llofnodion. (Tudalen 27)

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell na ddylid cyfyngu ar faint o amser y gall deiseb gasglu llofnodion ar wefan y Cynulliad
(Tudalen 28)

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai canlyniadau deisebau gael eu cyhoeddi pan gaiff deisebau eu cau. (Tudalen 28)

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylid gwneud newidiadau i Reolau Sefydlog o ganlyniad i dderbyn argymhellion eraill ac er mwyn sicrhau bod y rheol sefydlog yn parhau'n eglur ac yn gyson.
(Tudalen 29)

1. Cefndir

Cyflwyniad

1. Ysgrifennodd y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2014¹ yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal adolygiad o drefniadau'r Cynulliad ar gyfer deisebau cyhoeddus, yn arbennig materion sy'n ymwneud â derbynioldeb. Gofynnodd i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad mewn da bryd i unrhyw argymhellion neu newidiadau gael eu hystyried erbyn dechrau'r Pumed Cynulliad.

2. Gofynnodd y Llywydd i'r Pwyllgor ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau i'r canlynol:

- y meini prawf cyfredol o ran derbynioldeb deisebau;
- sut yr ymdrinnir â deisebau derbyniadwy; ac
- ym mha ffordd y gallai Rheolau Sefydlog a systemau eraill y Cynulliad orfod newid er mwyn cefnogi unrhyw argymhellion.

3. Nododd y Llywydd, hefyd, nifer o gwestiynau eraill yn ei llythyr y gall y Pwyllgor fod am roi sylw iddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gwestiynau ynghylch derbynioldeb ond awgrymodd hefyd y gall y Pwyllgor fod am ystyried a yw system ddeisebau'r Cynulliad yn gweithio'n effeithiol, a ellir gwella gweithdrefnau'r Pwyllgor ei hun ac a oes unrhyw argymhellion yn galw am yr angen i wneud unrhyw newidiadau i Rheolau Sefydlog neu weithdrefnau eraill y Cynulliad.

Trefniadau Deisebau Presennol yn y Cynulliad

4. Caiff y prif ddarpariaethau sy'n rheoli gweithdrefn ddeisebau cyhoeddus y Cynulliad eu nodi yn Rheol Sefydlog 23. Mae'r Rheol Sefydlog yn cynnwys darpariaethau:

- bod yn rhaid i'r swyddogaethau yn y Rheol Sefydlog gael eu neilltuo i bwyllgor cyfrifol;
- ynghylch ffurf deisebau;
- ynghylch derbyniadwyedd deisebau;
- ynghylch y camau a gaiff eu cymryd mewn perthynas â deiseb; ac
- ynghylch trefniadau ar gyfer cau deisebau.

¹ [Eitem 5 - Cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2015](#)

5. Mae trosolwg yn Atodiad A yn nodi'n fwy manwl beth yw'r trefniadau ar gyfer deisebau yn y Cynulliad, yn ogystal ag ystadegau ynghylch nifer y deisebau yr ymdriniwyd â hwy.

Cylch Gorchwyl

6. Trafododd y Pwyllgor lythyr y Llywydd yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr a chytunodd i gynnal adolygiad ar sail y cylch gorchwyl a gaiff eu hawgrymu gan y Llywydd ym mharagraff 2 uchod.

Ymdriniaeth

7. Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol o ran ei ymdriniaeth o'r adolygiad:

- Ymgynghoriad cyhoeddus i gael barn y cyhoedd yn gyffredinol drwy holiadur/arolwg ar-lein.
- Ymgynghoriad rhanddeiliaid â sefydliadau a swyddfeydd y mae deisebau yn effeithio arnynt neu yr ymgynghorir â hwy mewn cysylltiad â deisebau, gan gynnwys:
 - cyn-ddeisebwyr a deisebwyr cyfredol;
 - cyrff sydd â diddordeb penodol, fel:
 - Byrddau Iechyd, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg, CLILC, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sefydliadau Polisi Cyhoeddus (Sefydliad Bevan, Gorwel, IWA), Galluogwyr deisebau (e.e. Change.org; 38 Degrees etc.)
- Tystiolaeth lafar – yn seiliedig ar ymatebion i ohebiaeth ysgrifenedig.
- Profiad o systemau deisebau eraill a gaiff eu defnyddio gan gyrff seneddol yn y DU, Iwerddon ac Ewrop.

Ymgynghoriad

8. Cynhaliodd y Pwyllgor dri ymgynghoriad cysylltiedig â rhanddeiliaid, deisebwyr a'r cyhoedd. Ymatebodd ddeg o randdeiliaid a 24 o ddeisebwyr cyfredol a blaenorol. Cafodd holiadur ar-lein neu bapur ei gwblhau gan 330 o aelodau o'r cyhoedd.² Yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan banel a oedd

² [Linc i ymatebion yr ymgynghoriad](#)

yn cynnwys deisebwyr blaenorol a phresennol a Chydffederasiwn y GIG.³

9. Ymwelodd dau Aelod o'r Pwyllgor hefyd â Dilyn a Brwsel i gael cipolwg ar waith y Dail Eireann a phwyllgor deisebau Senedd Ewrop.

10. Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn cymryd y gwaith hwn i ystyriaeth.

³ [Trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2015](#)

2. Materion yn ymwneud â Derbniadwyedd

Deisebau y tu allan i Bwerau'r Cynulliad i'w Datrys

Y sefyllfa bresennol

11. Ar hyn o bryd, ni dderbynnir deisebau oni bai eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru i'w datrys. Ni dderbynnir deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol chwaith.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

12. Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ar y mater hwn. Roedd 51 y cant o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein yn cytuno y dylid caniatâu i'r Cynulliad ystyried deisebau ar unrhyw fater. Fodd bynnag, efallai bod geiriad y cwestiwn penodol hwn wedi golygu nad oedd yr ymateb yn hollol gywir. Mae'r Cynulliad, drwy ei Reolau Sefydlog, wedi penderfynu peidio ag ystyried deisebau o'r math yma. Efallai fod y cwestiwn wedi rhoi'r argraff nad oedd caniatâd i'r Cynulliad ystyried deisebau o'r fath.

13. Cytunodd y rhan fwyaf o ddeisebwyr a ymatebodd y dylai'r pwyllgor allu ystyried deisebau ar faterion sydd heb eu datganoli, er bod y farn honno wedi'i rhannu'n gymharol gyfartal, gyda deg o blaid a saith yn erbyn.

14. Ni wnaeth y rhan fwyaf o randdeiliaid sylwadau yn uniongyrchol ar y maes hwn a gellir cymryd yn ganiataol eu bod, ar y cyfan, o blaid y sefyllfa bresennol, er bod rhai yn teimlo y dylai'r Pwyllgor allu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

Ein barn ni

15. Er ein bod yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid caniatâu i'r Pwyllgor ystyried deisebau ar faterion sydd heb eu datganoli, nid dyma'r farn gyffredinol, o bell ffordd. Mae'n rhaid bod pryder hefyd ynghylch yr effaith bosibl y gallai ystyried deisebau am faterion sydd heb eu datganoli ei chael ar waith y Pwyllgor. Gallai nifer sylweddol o ddeisebau godi ynghylch y materion hyn, a gallai hynny, wedyn, effeithio ar drafod deisebau ynghylch materion y gallai'r Cynulliad neu Lywodraeth Cymru eu newid yn uniongyrchol.

16. Mae'n bosibl mai un ffordd ymlaen fyddai caniatâu i ddeisebau ar faterion sydd heb eu datganoli gasglu llofnodion ar wefan y Cynulliad, ond peidio â'u cyfeirio i'r Pwyllgor Deisebau i'w hystyried. Dim ond materion datganoledig y byddai'r Pwyllgor Deisebau yn eu trafod o hyd, ond gallai'r cyhoedd fynegi barn ar faterion ehangach a chaniatâu i Aelodau'r Cynulliad gyfeirio at y deisebau hynny mewn dadleuon, datganiadau o farn ac ati.

A1 Rydym yn argymhell y dylid ystyried caniatâu i system ddeisebau ar-lein y Cynulliad gael ei defnyddio i gasglu llofnodion ar faterion sydd heb eu datganoli sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, dim ond deisebau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru ddylai gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Deisebau i'w hystyried.

Cyfrifoldebau Gweithredol Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

Y sefyllfa bresennol

17. Ar hyn o bryd, ni dderbynnir deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol unigol. (Mae hyn hefyd yn ymestyn i benderfyniadau awdurdodau lleol ar faterion a allai ddod gerbron Llywodraeth Cymru, fel cau ysgolion a cheisiadau cynllunio.) I'r gwrthwyneb, mae deisebau ynghylch penderfyniadau gweithredol byrddau iechyd lleol yn dderbyniadwy.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

18. Roedd ymatebion i'r arolwg ar-lein (57 y cant) o blaid caniatâu deisebau am benderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol ac hefyd o blaid (64 y cant) parhau i ganiatâu deisebau ynghylch penderfyniadau gweithredol byrddau iechyd.

19. Roedd ymatebion deisebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal (8 yr un) rhwng y rhai oedd o blaid newid mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol a'r rhai oedd yn fodlon ar y trefniadau presennol. Roedd mwyafrif clir (16 y cant) o blaid parhau â'r trefniadau presennol mewn cysylltiad â'r byrddau iechyd.

20. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid hefyd o blaid y trefniadau presennol, er bod Cydffederasiwn y GIG wedi awgrymu y dylai awdurdodau lleol fod yn destun deisebau, yn arbennig pan oedd y mater yn ymwneud ag ailddylunio gwasanaethau. Roedd awgrym hefyd y gallai deisebau ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol

gael eu hanfon yn uniongyrchol at yr awdurdod lleol o dan sylw er gwybodaeth, ac iddo ymateb os oedd o'r farn ei fod yn briodol. Ond ar y cyfan, derbyniwyd bod mandad ar wahân i awdurdodau lleol, nad oedd yn berthnasol i gyrff eraill y sector cyhoeddus.

Ein barn ni

21. Er gwaethaf yr ymatebion i'r arolwg ar-lein, ymddengys nad oedd cytundeb dros newid yn y maes hwn a rhesymau da dros beidio ag ymyrryd yn y broses leol o wneud penderfyniadau. Rydym yn deall bod swyddogion y Cynulliad sy'n cefnogi'r broses ddeisebau eisoes yn awgrymu i ddeisebwyr, pan fo hynny'n briodol, y gallant drafod materion gyda'u hawdurdod lleol a buasem yn annog parhau â hynny.

A2 Rydym yn argymhell na ddylid gwneud unrhyw newid i'r meini prawf derbyniadwyedd mewn cysylltiad â deisebau sy'n ymwneud â phenderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol.

Isafswm nifer y llofnodion angenrheidiol

Y sefyllfa bresennol

22. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddeisebau gasglu o leiaf 10 llofnod i fod yn dderbyniadwy neu ddim ond un llofnod os caiff ei chyflwyno gan sefydliad neu gymdeithas.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

23. Roedd 54 y cant o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein yn teimlo nad oedd 10 o lofnodion yn ddigon, ac roedd 40 y cant yn teimlo ei fod yn ddigon. Roedd 51 y cant o'r ymatebion, yn teimlo y dylai fod yr un fath i sefydliadau ac unigolion, beth bynnag fo'r trothwy, ac roedd 37 y cant yn anghytuno.

24. Cafwyd ymateb cymysg gan y deisebwyr, heb unrhyw gytundeb clir yn dod i'r amlwg. Ymysg y rhai oedd o blaid cynyddu'r nifer, roedd yr awgrymiadau yn amrywio rhwng 300 a 2,000, gydag un ymateb yn nodi y dylid, os rhywbeth, gael trothwy uwch ar gyfer sefydliadau. Beth bynnag fo'r trothwy, roedd y rhan fwyaf o'r deisebwyr o blaid yr un faint ar gyfer unigolion a sefydliadau.

25. Roedd mwyafrif bach iawn hefyd o blaid trothwy uwch ac i'r trothwy fod yr un fath ar gyfer pob deiseb. Roedd yr awgrymiadau yn amrywio rhwng 30 a 5,000 (er y gallai hyn fod yn arwyddocaol o'r

ffordd a fabwysiadwyd gan rai awdurdodau lleol). Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid cadw'r nifer presennol, ac yn pryderu y gallai trothwy uwch olygu na fyddai rhai materion sy'n peri pryder, ond nad oes ganddynt yr un gefnogaeth eang, yn cael eu hystyried i'r un graddau â deisebau mwy "poblogaidd".

Ein barn ni

26. Ymddengys bod ychydig o gefnogaeth i'r farn bod y trothwy presennol yn rhy isel ac i'r un trothwy fod yn gymwys waeth pwy sy'n cyflwyno'r ddeiseb. Rydym yn cytuno ei bod yn ymddangos nad oes llawer o reswm dros gadw'r trothwy deuol presennol.

27. Fodd bynnag, un o gryfderau'r system bresennol yw nad yw'r trothwy isel yn rhwystr mawr rhag cyflwyno deisebau. Mae hyn hefyd yn golygu bod materion yn cael eu hystyried, er nad oes iddynt gefnogaeth eang neu gefnogaeth gyffredinol ond eu bod, er hynny, yn bwysig i'r rhai o dan sylw. Fodd bynnag, gallai cynnydd bach yn y trothwy helpu i rwystro nifer fach o ddeisebau y gallai fod yn well ymdrin â hwy fel achosion etholaeth neu sy'n ddisynnwyr neu a gyflwynwyd fel jôc.

A3 Rydym yn argymhell cael gwared ar y trothwy deuol presennol ar gyfer llofnodion a bod y trothwy ar gyfer ystyried unrhyw ddeiseb yn cael ei godi i 50 o lofnodion.

Cymhwysedd i gyflwyno a llofnodi deisebau

Y sefyllfa bresennol

28. Ar hyn o bryd, dim ond ar Aelodau'r Cynulliad y mae yr unig gyfyngiad o ran pwy all gyflwyno a llofnodi deisebau. Mewn gwirionedd, felly, gall unrhyw un arall gyflwyno a llofnodi deisebau. Yn ymarferol, mae swyddogion y Cynulliad yn bod yn ofalus o ran y rhai sy'n amlwg naill ai'n ifanc iawn neu a allai fod yn agored i niwed mewn rhyw ffordd arall. Bydd arfer, y gofal hwn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos a byddai, fel arfer, yn golygu cael cyngor cyfreithiol yn gyntaf.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

29. Mae tair prif agwedd i'r mater arbennig hwn, sef lleoliad, oedran ac unrhyw gysylltiadau.

30. Roedd yr ymatebion i'r arolwg ar-lein yn glir iawn mai dim ond y bobl sy'n byw yng Nghymru ddylai allu cyflwyno (72 y cant o blaid) a llofnodi (63 y cant o blaid) deiseb. Roeddynt hefyd o blaid (53 y cant) isafswm oedran ar gyfer cyflwyno deisebau a dywedodd 38 y cant o'r ymatebion y dylai'r isafswm oedran fod yn 16 (o'i gymharu â 37 y cant a oedd yn erbyn unrhyw gyfyngiadau oedran. Roeddynt hefyd yn erbyn (58 y cant) caniatâu i bleidiau gwleidyddol gyflwyno deisebau. Roedd rhaniad mwy cyfartal ynghylch a ddylid caniatâu i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion y Cynulliad gyflwyno deisebau (49 y cant yn erbyn; 43 y cant o blaid).

31. Roedd y deisebwyr wedi rhannu'n gyfartal o ran a ddylid cael cyfyngiadau ar bobl sy'n byw y tu allan i Gymru. Ymysg y rhai oedd o blaid cyfyngiadau, roedd rhai am iddo gael ei gymhwyso i unrhyw un y tu allan i Gymru, ac roedd eraill o'r farn mai ar lefel y DU y dylid cael cyfyngiadau. Dim ond ychydig o gefnogaeth oedd ymysg deisebwyr dros gyfyngiadau oedran ac roedd cefnogaeth amlwg dros barhau i ganiatâu i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion y Cynulliad a phleidiau gwleidyddol allu cyflwyno deisebau.

32. Nid oedd unrhyw gonsensws clir ymysg rhanddeiliaid. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r sefyllfa bresennol o ran y tri mater ond gydag ychydig mwy o gydymdeimlad tuag at gyfyngiadau ar ddeisebau a gaiff eu cyflwyno (ond heb eu llofnodi) gan bobl y tu allan i Gymru. Ond roedd un ymateb yn tynnu sylw at anghysondeb tybiedig, gan nad yw'r Pwyllgor ond yn derbyn deisebau ar faterion datganoledig, ond ei fod yn derbyn llofnodion gan y rhai nad ydynt yn byw o dan awdurdodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ein barn ni

33. Yr unig faes lle roedd rhywfaint o gefnogaeth ar draws y tair carfan o ymatebion oedd i gyfyngu ar leoliad y bobl sy'n cyflwyno deiseb i'r rhai sy'n byw yng Nghymru.

34. Mae rhai materion ymarferol i'w hystyried mewn cysylltiad â hyn, fel sefydliadau sy'n gweithredu ar sail y DU gyfan neu ar sail Cymru a Lloegr. Mae natur y setliad datganoli presennol hefyd yn golygu y gall penderfyniadau'r Cynulliad gael effaith yn Lloegr, er enghraifft y GIG a materion amgylcheddol. Yn y cyd-destun hwn, gellir nodi mai dim ond dinasyddion Prydain a phreswylwyr y DU a all greu neu lofnodi deiseb

gan ddefnyddio system ddeisebu ar-lein Tŷ 'r Cyffredin, ond nad yw'n ymddangos bod gan Senedd yr Alban gyfyngiadau felly.

35. Er hynny, ymddengys bod cefnogaeth i gyfyngu ar y bobl a all gyflwyno deiseb i bobl sy'n byw yng Nghymru a sefydliadau sydd â phresenoldeb yng Nghymru.

36. Ychydig iawn o gefnogaeth a roddodd y deisebwyr a rhanddeiliaid i newidiadau mewn meysydd eraill ac roedd yr ymateb ar ran y Comisiynydd Plant yn arbennig yn erbyn unrhyw gyfyngiadau o ran oedran.

37. Y mater, o ran staff y Cynulliad yw yr angen iddynt fod, neu gael eu gweld i fod, yn wleidyddol ddiuedd. Efallai bod hwn yn fater ddylai gael ei ystyried ar wahân i'r adolygiad hwn gan Gomisiwn y Cynulliad.

A4 Rydym yn argymhell mai dim ond pobl sy'n byw yng Nghymru neu sefydliadau sydd â swyddfa yng Nghymru ddylai allu cyflwyno deisebau. Ni ddylid cael cyfyngiadau ar y rhai sydd am lofnodi deiseb.

A5 Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried a ddylai swyddogion y Cynulliad allu cymryd rhan yn y broses ddeisebau, o ystyried yr angen iddynt gael eu gweld i fod yn wleidyddol ddiuedd.

Cyfyngiadau eraill o ran testun a deisebwyr

Cefndir a Sefyllfa Bresennol

38. Gofynnodd yr ymgynghoriadau cyhoeddus hefyd am farn ynghylch cyfyngiadau posibl eraill, naill ai o ran deisebau neu ddeisebwyr, fel y gall y Pwyllgor ganolbwyntio ar ddeisebau a all wneud y gwahaniaeth mwyaf. Ymysg y cwestiynau a ofynnwyd (ni ofynnwyd yr un cwestiynau i'r tri grŵp oherwydd natur wahanol yr ymgynghoriadau):

- a ddylai deisebwyr geisio datrys mater yn gyntaf, cyn cyflwyno deiseb, er enghraifft drwy ysgrifennu at eu Haelod Cynulliad, Cynghorydd lleol neu'r corff cyhoeddus o dan sylw;

- a ddylid cael unrhyw gyfyngiad ar nifer y deisebau y gall unigolyn eu cael o dan ystyriaeth ar un adeg, yn enwedig os yw hyn yn cael ei wneud am resymau blinderus neu ddiwbys;
- a ddylid cael rhyw ffordd o atal deisebau a gaiff eu hystyried yn gamddefnyddio proses; ac
- a ddylai'r Cynulliad ystyried deisebau sy'n debyg iawn i rai sy'n cael eu hystyried neu sydd wedi cael eu hystyried yn ddiweddar?

39. Ag eithrio'r pwynt olaf uchod, nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol o ran y meysydd hyn ar hyn o bryd, er na chaniateir deisebau sy'n cynnwys iaith dramgwyddus. Gallai cynnwys a allai fod yn ddifennol neu a allai godi materion cyfreithiol eraill (er enghraifft, diogelu data) gael eu gwrthod am resymau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r system ddeisebau.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

40. Gofynnodd yr arolwg ar-lein a ddylai deisebwyr geisio datrys mater cyn cyflwyno deiseb. Roedd 65 y cant o'r rhai a ymatebodd o blaid rhyw fath o gyfyngiadau fel hyn.

41. Dywedodd un deisebydd y dylai'r Pwyllgor fod yn llwybr dewis olaf, ond teimlai'r mwyafrif na ddylid rhoi cyfyngiadau pellach o ran cyflwyno deisebau, gan y byddai hyn yn ychwanegu at fiwrocratiaeth. Mynegodd y deisebwyr gydymdeimlad â'r angen i atal deisebau blinderus neu ddirmygus. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn erbyn cyflwyno unrhyw gamau penodol i ymdrin â'r mater. Dim ond lleiafrif o ymatebion deisebwyr oedd o blaid cyfyngu ar nifer y deisebau "byw" y gallai unigolyn eu cyflwyno.

42. Gofynnwyd cwestiynau mwy cyffredinol i randdeiliaid ynghylch cyfyngiadau i atal camddefnyddio'r broses ac a oes angen bod yn fwy eglur o ran ffurf gywir deisebau. Gofynnwyd iddynt hefyd ynghylch ystyried deisebau sy'n debyg iawn i rai sy'n cael eu hystyried neu sydd wedi cael eu hystyried yn ddiweddar.

43. Cytunodd tri rhanddeiliad y dylid cael rhyw ddull ar gyfer ymdrin â deisebau a oedd yn camddefnyddio'r broses ond ni chafwyd sylwadau gan eraill. Yn yr un modd, dim ond ychydig o gefnogaeth a gafwyd i ffurf briodol ar gyfer deisebau er bod ychydig o gefnogaeth i ganllawiau yn y maes hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol hefyd i'r

cyfyngiad presennol ar ddeisebau a oedd yn cael eu hailadrodd, er bod un rhanddeiliad o'r farn y dylai'r ymdriniaeth fod yn ddigon hyblyg i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

Ein barn ni

44. Er bod yr ymatebion i'r arolwg cyhoeddus o blaid deisebwyr yn ceisio datrys mater cyn cyflwyno deiseb, nid oedd ymatebwyr eraill yn gweld fod angen newid. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw gefnogaeth dros gyfyngu ar nifer y deisebau a dim ond ychydig o gefnogaeth mewn cysylltiad â newidiadau i ymdrin â deisebau blinderus neu debyg. Cafwyd rhai galwadau am ganllawiau pellach ond efallai fod hyn oherwydd nad oedd y rhai a oedd yn ymateb yn ymwybodol o'r canllawiau sydd eisoes ar gael, a gaiff ei dynnu i sylw deisebwyr ar hyn o bryd. Er hynny, bydd angen adolygu'r canllawiau er mwyn cymryd i ystyriaeth drefniadau ar gyfer y Pumed Cynulliad, ac unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil yr adolygiad hwn.

A6 Rydym yn argymhell peidio â gwneud newidiadau i'r materion a nodir ym mharagraff 38 ond yn gofyn i swyddogion adolygu'r canllawiau presennol yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad, a'u bod hefyd yn ystyried sut y gellir eu gwneud yn fwy hygyrch.

3. Cyfrifoldeb dros Dderbyniadwyedd

Cefndir a Sefyllfa Bresennol

45. Nid yw cyfrifoldeb dros dderbyniadwyedd yn rhan ffurfiol o'r cylch gwaith a gytunwyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Er hynny, cododd rhai deisebwyr y mater yn eu hymatebion.

46. Ar hyn o bryd, y Llywydd sy'n gyfrifol am benderfynu a yw deiseb yn dderbyniadwy ac mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i Glerc y Pwyllgor Deisebau. Gall y Llywydd ystyried apeliadau os oes anghydfod ynghylch a yw deiseb yn dderbyniadwy. Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw apeliadau ffurfiol. Efallai mai'r rheswm yw nad yw'r deisebwyr, yn y rhan fwyaf o achosion yn anghydweld â'r ffordd y caiff y meini prawf derbyniadwyedd eu cymhwyso, ond yn anghytuno, yn hytrach, â rhai agweddau ar y meini prawf eu hunain.

Barn o'r Ymgynghoriad

47. Codwyd y mater hwn yn uniongyrchol gan ddim ond un deisebydd a oedd yn pryderu bod y staff yn gweithredu fel "gwarchodwyr". Fodd bynnag, nid yw'n afresymol i gymryd yn ganiataol fod y nifer o ddeisebwyr a oedd yn anghytuno â rhai o'r meini prawf neu'r holl feini prawf derbyniadwyedd, a bod eu deisebau yn annerbyniadwy, yn rhannu'r farn hon. Yn wir, pan ofynnwyd am sylwadau cyffredinol ar y system ddeisebau, roedd rhywfaint o bryder ynghylch penderfyniadau derbyniadwyedd. Awgrymodd un deisebydd y gallai "panel o ddinasyddion" helpu i benderfynu ar dderbyniadwyedd.

48. Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ynghylch a oedd angen newidiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad. Nid oedd neb wedi nodi fod hyn yn broblem.

Ein barn ni

49. Er nad yw hyn yn rhan ffurfiol o'r cylch gwaith ar gyfer yr adolygiad, rydym wedi ystyried y mater, yn arbennig o ystyried yr effaith ar y llwyth gwaith pe bai'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei roi arnom.

50. Yn y Cynulliad presennol, mae tua 330 o ddeisebau annerbyniadwy wedi cael eu cyflwyno. Byddai angen i'r rhain gael eu hystyried gan staff yn yr un ffordd ag ar hyn o bryd. Wedyn, pe bai'r Pwyllgor am gymryd cyfrifoldeb dros benderfyniadau derbyniadwyedd

unigol, byddai angen i swyddogion ddarparu argymhellion ar dderbyniadwyedd i'r Pwyllgor eu hystyried.

51. Caiff penderfyniadau derbyniadwyedd eu gwneud ar hyn o bryd o fewn 5 diwrnod gwaith fel arfer, er y gall rhai achosion cymhleth gymryd ychydig mwy. Mae hyn yn golygu y gall deisebau gasglu llofnodion yn fuan ar ôl cael eu cyflwyno. Pe bai angen i'r Pwyllgor ystyried derbyniadwyedd, byddai hyn yn golygu oedi'r broses nes y gallai'r Pwyllgor eu hystyried. Ar y cyfan, mae oedi pellach o un wythnos yn ymddangos yn debygol.

52. Nid yw'n bosibl rhagweld faint o amser y byddai'n ei gymryd i'r Pwyllgor ystyried penderfyniadau derbyniadwyedd unigol ond pe bai pob deiseb newydd yn y Cynulliad hwn wedi cael, ar gyfartaledd, 30 eiliad i ystyried derbyniadwyedd, byddai wedi cymryd amser cyfatebol o tua tri chyfarfod dwy-awr. Ymddengys yn debygol y byddai rhai deisebau yn fwy dadleuol, felly byddai angen mwy o amser.

53. Mae pryder hefyd pe bai Pwyllgor yn gyfrifol am benderfyniadau derbyniadwyedd, gallai'r canfyddiad godi bod penderfyniadau yn cael eu gwneud am resymau gwleidyddol.

54. Am y rhesymau hyn, nid ydym o blaid gwneud y Pwyllgor yn gyfrifol am benderfyniadau unigol ynghylch derbyniadwyedd.

55. Fodd bynnag, er mai'r Llywydd sy'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadwyedd deisebau fel arfer, mae'r swyddogaeth weinyddol wedi cael ei dirprwyo, bron yn gyfan gwbl, i swyddogion, sy'n gwneud y gwaith mewn ffordd wleidyddol ddiuedd.

56. Pe bai'r Pwyllgor yn cael y gwaith enwol o benderfynu ar dderbyniadwyedd, ni allwn weld pam na allai Clerc y Pwyllgor Deisebau weithredu o dan ddirprwyaeth debyg gan y Pwyllgor, yn hytrach na'r Llywydd. Byddai hyn yn caniatâu i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar feini prawf derbyniadwyedd cyffredinol a sut y dylid eu dehongli, cynnig llwybr i apelio mewn achos o anghydfod, fel y caiff ei ddarparu gan y Llywydd ar hyn o bryd, ac alinio polisi a gweithdrefn yn well o ran deisebau mewn un lle.

A7 Rydym yn argymhell y dylai'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar dderbyniadwyedd deisebau gael ei roi i'r Pwyllgor Deisebau newydd ar y sail y byddai, wedyn yn dirprwyo'r gwaith dydd i ddydd i Clerc y Pwyllgor Deisebau.

4. Ymdrin â Deisebau Derbyniadwy

Cefndir a Sefyllfa Bresennol

57. Gofynnwyd nifer o gwestiynau cyffredinol i'r deisebwyr a'r rhanddeiliaid yn holi am awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffordd o ymdrin â deisebau. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o ddeisebwyr yn gadarnhaol o ran eu profiadau o'r system ddeisebau. Roedd rhanddeiliaid, hefyd, yn gefnogol i'r system bresennol. Fodd bynnag, cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer newid, a chânt eu trafod ymhellach isod.

Y problemau a godwyd

Blaenoriaethu deisebau

58. Un o'r pryderon mwyaf cyffredin oedd yr amser y gall ei gymryd i ymdrin â deisebau, er bod cydnabyddiaeth gyffredinol fod hyn yn gysylltiedig â'r amser sydd gan y Pwyllgor i drafod deisebau ac y gall ymatebion i benderfyniadau'r Pwyllgor gymryd amser.

59. Roedd nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn:

- blaenoriaethu deisebau;
- cau deisebau cyn gynted ag y daw'n amlwg na ellir datrys unrhyw fater (a, thrwy hynny, cyn gynted ag y bydd amodau deiseb wedi'u datrys);
- drwy gael trothwy llofnodion awtomatig ar gyfer cychwyn dadl yn y Cyfarfod Llawn;

60. Mae rhinweddau i bob un o'r awgrymiadau hyn ond, nid yw bob amser yn hawdd canfod a ellir datrys deiseb (neu a yw wedi'i datrys).

61. Mae'r Pwyllgor yn ceisio blaenoriaethu deisebau ond mae'r nifer a gaiff eu hystyried bob amser yn debygol o godi tuag at diwedd Cynulliad o'i gymharu â'r dechrau. Mae hyn yn arwain at gyfyngu ar amser y Pwyllgor i ymdrin â deisebau a defnyddio rhagor o amser y staff i weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor. Er hynny, mae datblygu meini prawf eglur ar gyfer blaenoriaethu deisebau, a'r camau y dymuna'r Pwyllgor eu cymryd i ymdrin â hwy, yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor newydd fod am ei ystyried. Efallai mai rhai o'r meini prawf posibl ar gyfer blaenoriaethu yw:

- Nifer y llofnodion a gafodd y ddeiseb;
- A yw testun y ddeiseb yn cael ei drafod, neu wedi cael ei drafod drwy broses arall yn y Cynulliad (er enghraifft Bil neu Ymchwiliad Pwyllgor);
- Ai deiseb yw'r unig ffordd y gall y deisebwyr symud y mater yn ei flaen neu a ydynt yn rhan o ymgyrch lobïo neu gysylltiadau cyhoeddus ehangach;
- Brys y mater;
- A yw testun y ddeiseb yn golygu prosesau cyfreithiol neu rhannol-gyfreithiol pan na allai cyfraniad y Pwyllgor gael ei ystyried; ac
- A yw'r ddeiseb yn codi cynigion polisi arloesol nad ydynt wedi cael eu hystyried o'r blaen.

62. Mae Senedd y DU wedi mabwysiadu system ddeisebau newydd yn ddiweddar, lle mae deiseb sy'n denu 100,000 o lofnodion yn cael ei hystyried yn awtomatig yn destun dadl. (Dim ond os yw deiseb yn denu dros 10,000 o lofnodion y gwneir cais yn awtomatig am ymateb Llywodraeth y DU). Mae hyn wedi arwain at yr awgrym y dylai'r Cynulliad fabwysiadu trothwy llofnodion awtomatig. Pe bai system o'r fath yn cael ei chyflwyno yn y Cynulliad, yna, byddai angen ffigur llawer is er mwyn adlewyrchu'r boblogaeth is yng Nghymru. Byddai ffigur o tua 6,000 yn gymharol ar sail poblogaeth, ond efallai y byddai ffigur o 10,000 yn fwy priodol i ddechrau.

Ein barn ni

63. Rydym yn cytuno fod angen i'r Pwyllgor newydd gytuno ar feini prawf yn gynnar o ran sut orau i flaenoriaethu deisebau a thrwy hynny sicrhau ffocws ei ymdrechion. Credwn, hefyd, fod gwerth mewn cael trothwy clir i'r Pwyllgor ystyried yn awtomatig a ddylid cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn. (Byddai unrhyw ddadl yn dal i gael ei sbarduno gan adroddiad ffurfiol gan y Pwyllgor, ond gallai olygu bod materion pwysig yn cael eu hystyried a'u trafod yn gynt.)

A8 Rydym yn argymhell i'r Pwyllgor newydd yn y Pumed Cynulliad y dylai:

- ddatblygu meini prawf clir ar gyfer blaenoriaethu deisebau;
- ystyried cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn yn awtomatig ar unrhyw ddeiseb sy'n cyrraedd trothwy llofnodion (efallai bod ffigur o 10,000 o lofnodion yn briodol); a
- chau deisebau cyn gynted ag y daw'n amlwg na ellir eu datrys.

Pwerau'r Pwyllgor

64. Roedd nifer o ymatebion yn mynegi rhwystredigaeth, yn arbennig tuag at ymatebion y Llywodraeth i'r Pwyllgor. Roedd galwadau i'r Pwyllgor gael mwy o rym neu'r gallu i osod sancsiynau ar Weinidogion mewn rhyw ffordd. (I'r gwrthwyneb, roedd un ymateb yn ystyried tybed a oedd pwerau'r Pwyllgor yn rhy eang.) Roedd awgrym arall yn galw ar roi hawl i ddeisebwyr apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor i gau deiseb.

65. Efallai nad oedd y deisebwyr yn llwyr ymwybodol bod gan y Pwyllgor yr un pwerau â Phwyllgorau eraill y Cynullid i alw am bobl a phapurau, a chymryd tystiolaeth mewn rhai amgylchiadau o dan lw. Yn ymarferol, nid oes yr un o bwyllgorau'r Cynulliad wedi bod angen y pwerau hyn, ond maent yn bwerau pwysig sy'n caniatâu i Weinidogion ac eraill gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor i ateb cwestiynau os oes angen. Yr hyn nad oes gan y Pwyllgor yw pwerau gweithredol i ddirymu penderfyniadau'r Llywodraeth neu orfodi canlyniadau penodol. Efallai fod hyn yn rhwystredigaeth i rai deisebwyr, ond nid yw'n gynig realistig mewn system seneddol o lywodraethu.

Ein barn ni

66. Credwn fod pwerau presennol y Pwyllgor yn ddigon eang ac nid yw'n ymddangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau Pwyllgor i gau deisebau. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai cefnogaeth wedi bod yn fwy cyffredinol, mae'n anodd gweld sut y gallai system o'r fath weithio'n ymarferol, ac at bwy neu at ba gorff y byddai apeliadau yn cael eu gwneud.

A9 Rydym yn argymhell peidio â newid pwerau'r Pwyllgor na rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i gau deisebau.

Mynd i Gyfarfodydd

67. Un o'r awgrymiadau a wnaeth un deisebydd oedd y gallai cyfarfodydd gael eu cynnal ar wahanol adegau er mwyn galluogi pobl o'r tu allan i goridor yr M4 fod yn bresennol. Awgrymodd deisebydd arall y dylai deisebwyr allu siarad â'r Pwyllgor ym mhob achos. Roedd galwad llai penodol hefyd i'r Pwyllgor wneud mwy o ddefnydd o sesiynau tystiolaeth lafar.

68. Mae cynnal cyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud yn y gorffennol ac yr hoffai wneud mwy ohono. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor wedi canfod y gall tystiolaeth lafar helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o ddeiseb a gallai hefyd ganiatâu i ddeisebwyr deimlo eu bod wedi cael mwy o "wrandawriad". Fodd bynnag, mae amser cyfarfod cymharol gyfyng y Pwyllgor (yn ogystal â nifer y deisebau a gaiff eu hystyried) wedi golygu bod y cyfle i ymweld neu gymryd tystiolaeth lafar wedi lleihau erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Gallai amser cyfarfod mwy hyblyg, a fyddai'n caniatâu i'r Pwyllgor gwrdd am fwy o amser pe bai'n dymuno hynny ac ar adegau pan fo llai o alw ar Aelodau (a Gweinidogion) ganiatâu mwy o gyfle i'r Pwyllgor gwrdd y tu allan i Gaerdydd a chlywed mwy o dystiolaeth lafar. Efallai y byddai mwy o waith blaenoriaethu deisebau, fel y trafodwyd yn gynharach, hefyd yn rhyddhau rhagor o amser.

69. Er bod rhoi'r "hawl" i bob deisebydd ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ymddangos yn ddeniadol, mae ychydig yn anymarferol. Yn y Cynulliad presennol, pe bai pob deiseb newydd wedi cael dim ond 5 munud o amser, byddai wedi bod angen bron i 28 awr o amser Pwyllgor. Wrth gwrs, ni fyddai pob deisebydd am fanteisio ar y cyfle ond, er hynny, mae'r effaith bosibl ar waith y Pwyllgor yn debygol o fod yn sylweddol.

70. Caiff bob deisebydd gynnig cyfle i gwrdd ag Aelodau o'r Pwyllgor yn anffurfiol i gyflwyno eu deiseb ac mae llawer yn manteisio ar hyn ac yn ei ystyried yn werthfawr. Yn wir, efallai bod y cyfle anffurfiol hwn i siarad â'r Aelodau yn fwy gwerthfawr weithiau (ac ychydig yn llai brawychus) na siarad mewn cyfarfod Pwyllgor ffurfiol.

Ein barn ni

71. Mae amser cyfarfod y Pwyllgor ar hyn o bryd ar fore Mawrth yn gyfyng iawn, yn arbennig gan fod angen i'r Aelodau fynd i gyfarfodydd eu grwpiau plaid yn syth ar ôl y Pwyllgor Deisebau a bod ar gael ar

gyfer y Cyfarfod Llawn yn y prynhawn. Nid ydym yn gweld fod angen i'r Pwyllgor gwrdd fwy nag unwaith bob pythefnos yn ystod y tymor.

72. Fodd bynnag, mae'r amser cyffredinol a gaiff ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd yn gyfyngedig iawn, gyda dim ond dwy awr bob pythefnos. Oherwydd ymrwymadau'r Cabinet, mae Gweinidogion, yn ymarferol, yn gyfyngedig i ddim ond slot o hanner awr ar ddiwedd pob cyfarfod, pe bai'r Pwyllgor am gymryd tystiolaeth lafar ganddynt.

A10 Rydym yn argymhell bod Y Pwyllgor Busnes yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes newydd sicrhau bod slot Y Pwyllgor Deisebau newydd yn ddigon hyblyg i ganiatâu i ragor o gyfarfodydd gael eu cynnal y tu allan i'r Senedd er mwyn ei gwneud yn haws i raglennu tystiolaeth lafar, yn arbennig gan Weinidogion.

Cyfrifoldeb dros symud Deisebau yn eu blaen

73. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn caniatâu i'r Pwyllgor:

“gyfeirio'r ddeiseb at y Llywodraeth, unrhyw un o bwyllgorau eraill y Cynulliad neu unrhyw berson neu gorff arall fel y gallant gymryd unrhyw gamau sy'n briodol yn eu barn hwy;”⁴

74. Roedd hyn wedi cael ei gymryd i olygu y gallai'r Pwyllgor Deisebau drosglwyddo cyfrifoldeb, ac unrhyw gamau dilynol ynghylch deiseb, i bwyllgor arall y Cynulliad a'i wneud yn “Bwyllgor cyfrifol” dros ddeiseb a drosglwyddwyd. Byddai hynny'n caniatâu iddo gau'r ddeiseb os oedd yn dymuno hynny. Ymddengys yn amlwg erbyn hyn, fodd bynnag, mai'r Pwyllgor Deisebau yw'r pwyllgor cyfrifol o hyd ac na chaiff pwyllgorau eraill gau deiseb.

Ein barn ni

75. Er ei bod yn debygol mai'n achlysurol y bydd unrhyw Bwyllgor Deisebau newydd am ddefnyddio'r cyfleuster hwn, efallai y bydd achlysuron yn codi pan mai'r ffordd orau o symud deiseb ymlaen fydd ei chyfeirio i bwyllgor arall yn y Cynulliad fel y mae o'r farn sydd orau, gan gynnwys y posibilrwydd o'i chau.

A11 Rydym yn argymhell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad gael eu gwneud yn fwy clir er mwyn caniatâu i'r Pwyllgor Deisebau

⁴ Rheol Sefydlog 23.9(i)

drosgwlyddo cyfrifoldeb dros ddeiseb (gan gynnwys ei chau) i un o bwyllgorau eraill y Cynulliad.

Cyfeirio Deisebau i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill

76. Yn ystod ymweliad Aelodau'r Pwyllgor â'r Dail Eireann a Senedd Ewrop, gwelsom fod gan y ddau Bwyllgor Deisebau rôl goruchwyllo a monitro mewn cysylltiad ag Ombwdsmon Gweriniaeth Iwerddon ac Onbwdsmon yr Undeb Ewropeaidd, yn y drefn honno. O'r ymweliadau hyn, ac o gysylltu â Phwyllgor Deisebau Baden Württemberg Landtag, ymddengys bod hyn yn gyffredin mewn deddfwrfeydd yn Ewrop. Nid ydym wedi archwilio'r mater hwn yn ddigon manwl i fod wedi llunio barn ynghylch a ddylai trefniadau tebyg gael eu cymhwyso yng Nghymru, ond cofnodir hyn yma ar gyfer y dyfodol.

77. Gofynnwyd i ddeisebwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd a ddylai'r Pwyllgor allu cyfeirio deisebau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill. Cafwyd cefnogaeth gadarn i'r awgrym hwn gan y dair carfan o ymatebwyr.

78. Mae protocol yn ei le eisoes gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n ei gwneud yn glir nad yw deisebau sy'n honni achosion penodol o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus yn dderbyniadwy. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir o'r deisebau mai felly y mae. Weithiau, caiff deisebau ynghylch materion mwy cyffredinol eu hysgogi gan bryderon penodol am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth. Pan ddaw hyn yn glir wrth i ddeiseb gael ei hystyried, nid yw'n glir beth yw cwmpas y Pwyllgor i gyfeirio'r materion hyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ond, yn bwysicach na hynny, efallai, a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu derbyn atgyfeiriadau.

79. Nid oes protocol yn ei le gyda'r Comisiynwyr eraill (Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol), er bod cyswllt y Pwyllgor â'r categori hwn o Gomisiynwyr yn canolbwyntio mwy, o bosibl, ar gefndir polisi yn hytrach na chwynion am wasanaethau.

Ein barn ni

80. Cyn ystyried y mater hwn ymhellach, mae angen trafod rhagor gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Comisiynwyr eraill. Gyda'r Ombwdsmon cyntaf er mwyn adnewyddu a diwygio

protocol 2009, a allai fod yn hen erbyn hyn, a gyda'r gweddill er mwyn sefydlu protocolau. Ar ôl datblygu'r protocolau hyn, efallai y bydd angen newidiadau wedyn i Reolau Sefydlog y Cynulliad er mwyn hwyluso unrhyw gytundebau y cytunir arnynt.

A12 Rydym yn argymhell y dylai'r protocol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei adnewyddu a'i ddiwygio er mwyn bod yn glir o ran yr amgylchiadau y gallai'r Pwyllgor gyfeirio deiseb i'r Ombwdsmon i'w hystyried yn ffurfiol.

A13 Rydym yn argymhell y dylai protocolau gael eu datblygu gyda'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â'r gefnogaeth y gallent ei rhoi i'r Pwyllgor wrth ystyried deisebau ac o dan ba amgylchiadau y gallai'r Pwyllgor gyfeirio deisebau iddynt i'w hystyried yn ffurfiol.

Materion Eraill

81. Y materion eraill neu'r awgrymiadau eraill a gododd o'r ymgynghoriad oedd:

- a ddylid parhau i dderbyn papurau papur;
- a ddylid derbyn deisebau a oedd wedi cael eu casglu gan ddefnyddio darparwyr deisebau ar-lein eraill (fel change.org neu 38 degrees);
- a ddylid cyfyngu ar faint o amser y gallai deiseb gasglu llofnodion ar wefan y Cynulliad;
- a ddylai rhestr o ganlyniadau deisebau gael ei chyhoeddi.

Ein barn ni

82. Er gwaethaf y ffaith y caiff y rhan fwyaf o ddeisebau eu cyflwyno ar-lein, nid oes unrhyw awgrym na ddylai deisebau papur barhau a dyma'r ddealltwriaeth safonol o beth yw deiseb. Felly hefyd, os oes enw da gan y darparwr ar-lein, bod ei ddilysrwydd o ran llofnodion yn ymddangos yn gymharol gadarn a bod amodau'r ddeiseb yn ymddangos yn dderbyniadwy fel arall, ymddengys nad oes rheswm da dros beidio â pharhau i dderbyn deisebau a gesglir ar wefannau allanol

A14 Rydym yn argymhell y dylai deisebau papur a deisebau a gesglir yn defnyddio hwyluswyr deisebau ar-lein barhau i gael eu derbyn ar yr amod eu bod yn dderbyniadwy ac nad oes pryder ynghylch dilysrwydd y llofnodion.

83. Ar hyn o bryd, gall deisebwyr ar-lein sy'n defnyddio gwefan y Cynulliad nodi am ba hyd y maent am i'r ddeiseb gasglu llofnodion. Mae'r rhan fwyaf yn nodi cyfnod cymharol fyr o ychydig wythnosau neu un neu ddau fis. Fodd bynnag, mae gan rai deisebwyr ddeisebau'n casglu llofnodion am fisoedd lawer ac am flynyddoedd mewn rhai achosion. Awgrymodd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad y dylid caniatâu cyfnod o tua 8 wythnos ym mhob achos. Mae hwn yn ymddangos fel cyfnod rhesymol i gasglu digon o lofnodion i ddangos faint o gefnogaeth sydd i'r ddeiseb. Fodd bynnag, nid oes gofyniad o'r fath, ac ni fyddai'n bosibl gosod gofyniad o'r fath, ar ddeisebau papur na deisebau a gesglir ar wefannau eraill, a byddai'n anodd cyfiawnhau trin gwahanol gategoriâu o ddeisebau'n wahanol yn ôl gwahanol reolau.

A15 Rydym yn argymhell na ddylid cyfyngu ar faint o amser y gall deiseb gasglu llofnodion ar wefan y Cynulliad

84. Mae'r awgrym i gyhoeddi canlyniadau ar gyfer pob deiseb yn un synhwyrol. Byddai angen ystyried ymhellach sut y gallai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno at ddibenion cymharu. Efallai y byddai asesiad gan ddeisebwyr yn holi am "foddhad defnyddwyr" o help yn yr achos hwn.

A16 Rydym yn argymhell y dylai canlyniadau deisebau gael eu cyhoeddi pan gaiff deisebau eu cau.

5. Newidiadau i Reolau Sefydlog

85. Gofynnwyd i randdeiliaid a oedd angen unrhyw newidiadau penodol i Reolau Sefydlog y Cynulliad o ran deisebau. Ni awgrymwyd unrhyw newidiadau ar wahân i'r rhai a gaiff eu trafod mewn manau eraill yn y papur hwn.

86. Fodd bynnag, byddai angen newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog yn sgil nifer o'r argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor (newid nifer y llofnodion, er enghraifft). Efallai y bydd yn synhwyrol hefyd i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn gyffredinol, yng ngoleuni'r newidiadau hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn eglur ac yn gyson.

A17 Rydym yn argymhell y dylid gwneud newidiadau i Reolau Sefydlog o ganlyniad i dderbyn argymhellion eraill ac er mwyn sicrhau bod y rheol sefydlog yn parhau'n eglur ac yn gyson.

Atodiad A - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Trosolwg o'r System Deisebau Cyhoeddus

1. Rheolau Sefydlog y Cynulliad

1.1 Caiff y prif ddarpariaethau sy'n rheoli gweithdrefn deisebau cyhoeddus y Cynulliad eu nodi yn Rheol Sefydlog 23.

1.2 Mae'r Rheol Sefydlog yn cwmpasu'r canlynol:

- bod yn rhaid i'r swyddogaethau yn y Rheol Sefydlog gael eu neilltuo i bwyllgor cyfrifol;
- ffurf deisebau;
- derbyniadwyedd deisebau;
- y camau a gaiff eu cymryd mewn perthynas â deiseb; a
- threfniadau ar gyfer cau deisebau.

2. Y Pwyllgor Cyfrifol

2.1 Yn dilyn newidiadau i'r Rheol Sefydlog a gyflwynwyd i'r Pedwerydd Cynulliad, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu "Pwyllgor Deisebau". Gellir neilltuo'r swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 23 i unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad, ond mewn gwirionedd, mae'r Cynulliad wedi sefydlu'r Pwyllgor Deisebau i ystyried deisebau derbyniadwy.

2.2 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o bwyllgorau eraill y Cynulliad, nid yw aelodaeth y Pwyllgor Deisebau yn dilyn cydbwysedd gwleidyddol y Cynulliad. Yn hytrach, dim ond pedwar aelod sydd ganddo, sef un o bob grŵp gwleidyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd gydsyniol y mae'r Pwyllgor yn gweithredu ynddi. Fodd bynnag, mae grŵp gwleidyddol y Cadeirydd yn cyfrannu at y gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol o ran Cadeiryddion Pwyllgorau yn y Cynulliad.

2.3 Mae gan y Pwyllgor bwerau arferol Pwyllgorau eraill y Cynulliad, gan gynnwys y gallu i wahodd unrhyw un i gyfarfodydd i roi tystiolaeth neu gyngor, a'r gallu i arfer pwerau'r Cynulliad i alw am bobl a phapurau.

3. Ffurf Deisebau

3.1 Rhaid i ddeisebau nodi'r canlynol yn glir;

- enw'r deisebydd, a all fod yn unigolyn (ar wahân i Aelod Cynulliad), yn sefydliad neu yn gymdeithas;
- cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth ynghylch y ddeiseb; ac
- enwau a chyfeiriadau unrhyw un sy'n cefnogi'r ddeiseb.

3.2 Y Llywydd sy'n gyfrifol am benderfynu ar ffurf briodol deisebau, a rhaid cyhoeddi'r penderfyniadau hynny. Hyd yma, ni fu rhaid i'r Llywydd wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n arferol i ddeisebau gael eu mynegi fel a ganlyn:

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru ... NEU Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru...

3.3 Nid oes terfyn ar hyd deisebau, er y bydd tîm clericio'r Pwyllgor Deisebau yn cynghori y dylai fod yn gryno a chanolbwyntio ar y camau yr hoffai'r deisebwyr eu gweld yn cael eu cymryd. Yn ogystal â'r Rheolau Sefydlog, ystyrir telerau ac amodau'r deisebau wrth wneud penderfyniad o ran eu derbyniadwyedd.

3.4 Bydd y tîm clericio hefyd yn rhoi cyngor ar eiriad sy'n annerbyniadwy am ei fod yn sarhaus neu y gallai fod yn ddifriol, neu am ei fod yn codi materion fel "sub judice". Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod deisebwyr yn gyfrifol am eiriad eu deisebau eu hunain, gan gynnwys os ydynt am fynegi barn gadarn. Yn yr un modd, ni chaiff gramadeg a brawddegau deiseb eu cywiro, heblaw pan nad yw'n gwneud synnwyr, ac yna caiff ei amlygu i'r deisebydd a chaiff gyfle i aralleirio neu egluro.

4. Derbyniadwyedd Deisebau

4.1 Mae'r Llywydd wedi dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd ar dderbynioldeb yn ffurfiol i Glerc y Pwyllgor Deisebau (nid oes gan y Pwyllgor ei hun rôl yn y penderfyniadau hyn). Y Llywydd yw'r unigolyn sydd â'r gair olaf mewn perthynas â derbynioldeb deisebau, a rhaid i'r Llywydd ystyried a phenderfynu mewn achos o anghydfod a yw deiseb yn dderbyniadwy.

4.2 Ar wahân i beidio â bod yn y fformat cywir, cynnwys iaith sarhaus ac ati, mae deisebau'n annerbyniadwy:

- os oes ganddynt lai na 10 llofnod (oni bai mai sefydliadau neu gymdeithasau sy'n eu cyflwyno; os felly, un llofnod yn unig sydd ei angen);
- os ydynt yn gofyn i'r Cynulliad wneud rhywbeth nad oes gan y Cynulliad bŵer i'w wneud;
- os ydynt yr un peth â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn ynghynt neu maent yn debyg iawn iddi. (Rhoddir eglurhad pellach o hyn yn y telerau ac amodau sy'n nodi: "cadwn yr hawl i wrthod deisebau sy'n debyg i a / neu'n gorgyffwrdd â deiseb a gafodd ei thrafod yn ystod y 12 mis diwethaf".)

Trothwy Llofnodion

4.3 Nid yw'r trothwy ar gyfer deisebau yn uchel ac felly nid yw'n atal pobl rhag cyflwyno deisebau. Mae hyn hefyd yn golygu bod materion yn cael eu hystyried lle nad oes ganddynt gefnogaeth eang neu gefnogaeth gyffredinol ond eu bod, er hynny, yn bwysig i'r rhai o dan sylw.

Cymhwysedd y Cynulliad

4.4 Gellir dehongli'r rhan fwyaf o'r meini prawf ar gyfer derbyniadwyedd yn gymharol syml. Y gofyniad na ddylai deiseb ofyn i'r Cynulliad wneud unrhyw beth y mae'n amlwg nad oes gan y Cynulliad bŵer i wneud unrhyw beth yn ei gylch yw'r prif ffactor yn y rhan fwyaf o benderfyniadau.

4.5 Wrth ddehongli hyn, mae'r Llywydd wedi cytuno na ddylai deisebau fynd y tu hwnt i allu'r Cynulliad na Gweinidogion Cymru o ran eu datrys. Felly, un o'r prif brofion wrth benderfynu a yw deiseb yn dderbyniadwy yw a yw pwnc y ddeiseb oddi mewn i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu bwerau Gweinidogion Cymru.

4.6 Mae deisebau am gyfrifoldebau gweithredol awdurdodau lleol unigol hefyd yn annerbyniadwy, er y gall fod yn fwy anodd penderfynu pan fo gan Weinidogion Cymru rôl yn y penderfyniadau sydd fel arall yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, fel cau ysgolion.

4.7 Caniateir deisebau ar gyfrifoldebau gweithredol byrddau iechyd lleol (a chyrrff cyhoeddus eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru). Mae hyn oherwydd bod yr awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn atebol yn ddemocrataidd i'w hetholwyr mewn ffordd nad yw byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus eraill. Gall Llywodraeth Cymru hefyd arfer mwy o gyfarwyddyd dros y Gwasanaeth Iechyd ac ati, nag sydd ganddi dros lywodraeth lleol.

Deisebau Tebyg Iawn

4.8 Caiff y maen prawf hwn ei ddehongli'n gymharol hael mewn perthynas â phynciau nad yw'r Pwyllgor wedi'u trafod yn ddiweddar, yn arbennig pan gaiff deisebau ar yr un mater eu cyflwyno tua'r un pryd. Mewn gwirionedd, bydd y Pwyllgor Deisebau yn aml yn 'grwpio' deisebau tebyg er mwyn osgoi dyblygu trafodaethau'n ddiangen. Fodd bynnag, pan fo deiseb ar fater sydd wedi'i gau gan y Pwyllgor, caiff dull mwy cyfyngedig ei ddefnyddio.

Cyhoeddi Deisebau Annerbyniadwy

4.9 Cyhoeddir rhestr o ddeisebau annerbiniadwy yn rheolaidd, ynghyd â'r rhesymau y mae'r deisebau hynny'n annerbiniadwy.

5. Gweithredu ynghylch Deiseb

5.1 Wrth ystyried deisebau, rhaid i'r Pwyllgor Deisebau:

- gyfeirio'r ddeiseb at y Llywodraeth, unrhyw un o bwyllgorau eraill y Cynulliad neu unrhyw berson neu gorff arall fel y gallant gymryd unrhyw gamau sy'n briodol yn eu barn hwy;
- cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad; neu
- gymryd unrhyw gamau eraill sy'n briodol ym marn y Pwyllgor.

5.2 Rhaid i'r Pwyllgor hefyd roi gwybod i ddeisebwyr am unrhyw gamau y mae'n eu cymryd mewn perthynas â deiseb. Er y gall gau deiseb ar unrhyw adeg, rhaid iddo roi gwybod i'r deisebwyr bod deisebau wedi cau a rhoi'r rhesymau dros wneud hynny.

5.3 Mewn gwirionedd, mae'r gofynion hyn, ynghyd â'r pwerau eraill sydd ar gael iddo, yn caniatâu cwmpas eang i'r Pwyllgor gymryd camau ar ddeisebau, yn ogystal â sicrhau y caiff deisebwyr wybod am unrhyw gynnydd a wneir.

5.4 Ymdrinnir â sawl deiseb drwy ohebiaeth yn unig, er y bydd deisebwyr a thystion eraill yn ymddangos gerbron y Pwyllgor mewn achosion eraill, fel y gall gael gwell dealltwriaeth o'r materion dan sylw. Caiff rhai deisebau eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad er mwyn iddynt eu trafod, ond y Pwyllgor Deisebau sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf ohonynt.

5.5 Mewn rhai achosion, bydd y Pwyllgor yn cynnal ei ymchwiliadau ei hun, ond mae pwysau amser a'r amrywiaeth eang o ddeisebau a gyflwynir yn golygu y bydd y rhain fel arfer yn fyrrach ac yn fwy cyfyngedig o ran eu cwmpas na'r ymchwiliadau y mae pwyllgorau eraill yn eu cynnal. Gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar unrhyw ddeiseb, a lle y bydd yn gwneud hyn, bydd yn arwain at ddadl yn y Cynulliad ac ymateb ffurfiol gan y Gweinidog perthnasol.

6. Cau Deisebau

6.1 Gall y Pwyllgor Deisebau gau deisebau ar unrhyw adeg ac mae wedi cau deisebau ar ôl eu hystyried am y tro cyntaf. Gan amlaf, bydd y Pwyllgor yn cau deiseb:

- lle bydd y deisebwyr yn fodlon bod y mater gwreiddiol wedi cael ei ddatrys; neu
- pan fo'n amlwg na ellir gwneud llawer o gynnydd, os o gwbl (yn aml ar ôl i Weinidogion wneud datganiad polisi clir nad ydynt yn bwriadu, neu na allant, weithredu'r hyn y mae'r ddeiseb yn galw amdano).

6.2 Bydd y Pwyllgor yn aml yn "cadw golwg" ar ddeisebau lle mae cynnydd yn debygol ond ei fod yn dibynnu ar ffactorau eraill, fel adolygiadau ehangach, deddfwriaeth neu brosesau cyllidebol.

6.3 Pan fo'r Pwyllgor yn cytuno i gau deiseb, yn ôl Rheolau Sefydlog rhaid iddo roi gwybod i'r deisebydd a rhoi'r rhesymau dros ei chau. Caiff hyn ei wneud fel arfer mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor a fydd yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd ynghylch y ddeiseb.

7. Deisebau Papur a Deisebau Ar-lein

7.1 Fel y soniwyd yn gynharach, caiff y rhan fwyaf o ddeisebau eu cyflwyno ar-lein gan ddefnyddio gwefan y Cynulliad, ond nid yw Rheolau Sefydlog, a ffordd y Pwyllgor o weithio, yn gwahaniaethu rhwng deisebau a gyflwynir ar-lein a'r rheini sydd wedi casglu

llofnodion ar bapur yn y ffordd fwy traddodiadol. Yn wir, nid oes rheswm pam na ddylai deisebau a gesglir ar wefannau deisebau eraill gael eu trafod (er mai ychydig a gaiff eu cyflwyno fel hyn).

7.2 Fodd bynnag, mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo sy'n ymwneud â'r broses ddeisebau yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod deisebwyr yn siarad â'r tîm clericio cyn iddynt ddechrau casglu llofnodion, er mwyn sicrhau bod y geiriad yn dderbyniadwy. Mae system ar-lein y Cynulliad ei hun yn caniatâu inni sicrhau bod y geiriad yn dderbyniadwy cyn cyhoeddi. Dim ond ar ôl cyhoeddi deiseb sy'n dderbyniadwy y gellir dechrau casglu llofnodion mewn perthynas â hi.

7.3 Mae llai o reolaeth dros ddeisebau papur a'r rheini a gyflwynir ar wefannau eraill. Weithiau bydd deisebwyr yn cysylltu â'r tîm deisebau ar ôl iddynt gasglu llofnodion. Yn yr achosion hyn, os yw'r deiseb yn dderbyniadwy yn gyffredinol, ond heb ei geirio'n gywir, fel arfer caiff ei chaniatâu. Os bydd angen newid ffocws y deiseb yn sylweddol, efallai y rhoddir gwybod i'r deisebydd fod angen deiseb newydd. Mae hyn yn ôl disgrisiwn y tîm clericio, ond defnyddir synnwyr cyffredin.

Amserlenni ar gyfer casglu llofnodion

7.4 Y deisebydd sy'n penderfynu am ba hyd y mae am i deiseb ar-lein fod ar agor er mwyn casglu llofnodion. Cynghorir deisebwyr fod rhwng pedair ac wyth wythnos yn ddigon, ond mae deisebwyr yn aml am gadw eu deisebau ar agor am gyfnod hwy. Gellir ymestyn y terfynau amser ar gyfer llofnodion ar-lein os bydd y deisebydd am gasglu mwy o lofnodion, neu os yw wedi methu â chyrraedd y nifer ofynnol ar gyfer llofnodion.

8. Materion Eraill

Pwy all lofnodi a chyflwyno deiseb

8.1 Nid oes cyfyngiadau o ran oedran na phreswyliaeth mewn perthynas â llofnodi a chyflwyno deiseb. Felly, gall pobl y tu allan i Gymru a'r DU gyflwyno deisebau. Yn yr un modd, gall pobl o unrhyw oedran lofnodi neu gyflwyno deiseb.

Deisebwyr sy'n cyflwyno deisebau fwy nag unwaith

8.2 Nid oes cyfyngiadau ar bobl yn cyflwyno mwy nag un ddeiseb na chael mwy nag un o dan ystyriaeth ar yr un pryd. Yr unig gyfyngiad yw pe byddai ar yr un pwnc.

Deisebau gan sefydliadau

8.3 Fel y sonir uchod, nid oes angen llofnodion ychwanegol ar ddeisebau gan sefydliadau er mwyn iddynt fod yn ddilys (er y bydd llawer o'r rhain yn dal i gasglu nifer sylweddol o lofnodion). Mewn gwirionedd, mae'r diffiniad o'r hyn sy'n cyfrif fel sefydliad yn llac iawn, gyda grwpiau sydd wedi'u creu'n ffurfiol, fel elusennau ac undebau llafur, yn gallu cyflwyno deisebau ynghyd â grwpiau llai ffurfiol, fel grwpiau ymgyrchu neu gymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr.

Cyflwyno deisebau

8.4 Unwaith y bydd deiseb wedi gorffen casglu llofnodion, caiff deisebwyr y cynnig i'w chyflwyno'n bersonol i Aelodau'r Pwyllgor Deisebau yn y Senedd (adeilad y Cynulliad) ym Mae Caerdydd. Er nad yw'n fusnes ffurfiol y Pwyllgor, mae'n rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor drafod y mater â hwy. Mae hefyd yn gyfle i greu cyhoeddusrwydd ar gyfer y ddeiseb ac mae'n rhan bwysig o'r broses gyffredinol.

Crynodeb Deisebau 2007-2015	Nifer o ddeisebau a gyflwynwyd
<u>Trydydd Cynulliad (2007-2011)</u>	
Deisebau a gyflwynwyd	342
O'r rhain:	
Derbyniadwy	262
Annerbyniadwy	80
Deisebau derbyniadwy wedi cau	203
Deisebau derbyniadwy ar agor ar ddiwedd y Cynulliad	59
Nifer y deisebau, ar gyfartaledd, a gyflwynwyd bob mis:	
Derbyniadwy	5.6
Annerbyniadwy	1.7
Cyfanswm	7.3
<u>Pedwerydd Cynulliad (2011 - Rhagfyr 2015)</u>	
Deisebau a gyflwynwyd	619
O'r rhain:	
Derbyniadwy	342
Annerbyniadwy	233
Deisebau derbyniadwy wedi cau	183
Deisebau derbyniadwy ar agor	149
Average no of petitions submitted per month:	
Derbyniadwy	6.2
Annerbyniadwy	4.2
Cyfanswm	11.3

Atodiad B - Cyfrifoldeb dros Ystyried Argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi pwy fydd angen ystyried pob argymhelliad, yn ogystal ag asesiad o ran a fydd angen newid Rheolau Sefydlog (a'r Rheol Sefydlog berthnasol) er mwyn ei weithredu

Argymhelliad (Gweler yr adroddiad i gael testun llawn yr argymhelliad)	Argymhelliad i'w ystyried gan:	A oes angen newidiadau i Reolau Sefydlog:	Rheol Sefydlog berthnasol:
A1 Deisebau i gael eu cyflwyno, ond yn annerbyniadwy, ar faterion sydd heb eu datganoli.	Y Pwyllgor Busnes	Oes	23.4
A2 Dim newid mewn derbyniadwyedd o ran penderfyniadau gweithredol awdurdodau lleol.	Y Llywydd (Pwyllgor Deisebau newydd os y gweithredir argymhelliad 7)	Na	Amh
A3 Dod â throthwy deul i ben a chodi'r trothwy ar gyfer pob deiseb i 50 o lofnodion.	Y Pwyllgor Busnes	Oes	23.4(i) a 23.5
A4 Dim ond pobl sy'n byw yng Nghymru neu sefydliadau sydd â swyddfa yng Nghymru ddylai allu cyflwyno deisebau.	Y Pwyllgor Busnes	Oes	23.2
A5 Comisiwn y Cynulliad ystyried a ddylai swyddogion y Cynulliad allu cymryd rhan yn y broses ddeisebau.	Comisiwn y Cynulliad	Efallai / neu drwy god y staff	23.2
A6 Swyddogion i adolygu canllawiau presennol deisebau.	Swyddogion y Cynulliad	Na	Amh

Argymhelliad (Gweler yr adroddiad i gael testun llawn yr argymhelliad)	Argymhelliad i'w ystyried gan:	A oes angen newidiadau i Reolau Sefydlog:	Rheol Sefydlog berthnasol:
A7 Dylai derbyniadwyedd gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Deisebau	Y Pwyllgor Busnes	Oes	23.3
A8 Dylai'r Pwyllgor Deisebau newydd ddatblygu meini prawf eglur ar gyfer blaenoriaethu deisebau (gan gynnwys ystyried yn awtomatig gofyn am ddadl Cyfarfod Llawn os bydd deiseb yn denu 10,000 o lofnodion)	Y Pwyllgor Deisebau newydd	Na	Amh
A9 Peidio â newid pwerau'r Pwyllgor na rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i gau deisebau.	Y Pwyllgor Busnes	Na	Amh
A10 Mwy o hyblygrwydd i'r Pwyllgor newydd raglennu ei fusnes.	Y Pwyllgor Busnes	Na	Amh
A11 Eglurhad o'r rheol sefydlog ynghylch trosglwyddo cyfrifoldeb dros ddeiseb i bwyllgor arall yn y Cynulliad.	Y Pwyllgor Busnes	Oes	23.9 (i)
A12 Adnewyddu'r protocol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chael eglurhad o'r amgylchiadau ar gyfer cyfeirio deiseb i'r Ombwdsmon	Y Pwyllgor Deisebau newydd	Na	Amh
A13 Datblygu protocolau newydd gyda'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol.	Y Pwyllgor Deisebau newydd	Na	Amh

Argymhelliad (Gweler yr adroddiad i gael testun llawn yr argymhelliad)	Argymhelliad i'w ystyried gan:	A oes angen newidiadau i Reolau Sefydlog:	Rheol Sefydlog berthnasol:
A14 Dylai deisebau papur a deisebau ar-lein eraill gan gwmnïau ag enw da barhau i gael eu derbyn.	Y Llywydd (Pwyllgor Deisebau newydd os y gweithredir argymhelliad 7)	Na	Amh
A15 Ni ddylid cyfyngu ar faint o amser y gall deiseb gasglu llofnodion ar wefan y Cynulliad.	Y Llywydd (Pwyllgor Deisebau newydd os y gweithredir argymhelliad 7)	Na	Amh
A16. Dylai canlyniadau deisebau gael eu cyhoeddi pan gaiff deisebau eu cau.	Y Pwyllgor Deisebau newydd	Na	Amh
A17 Dylai newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog gael eu hystyried yn sgil y prif argymhellion.	Y Pwyllgor Busnes	Efallai	23

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y diwrnod a nodir isod. Gellir gweld trawsgrif llawn o'r sesiwn tystiolaeth yn <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s45832/5%20November%202015.pdf>

Dyddiad	8 Rhagfyr 2015
Dr John Cox	Deisebydd
Mr Rob Southall	Deisebydd
Ms Nesta Lloyd-Jones	Cydffederasiwn y GIG

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae ymatebion unigol gan randdeiliaid, crynodeb o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad (gan randdeiliaid a chyn ddeisebwyr) ac ymatebion i'r holiaduron cyhoeddus ar gael ar wefan y Pwyllgor:

www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=180&RPID=655019&cp=yes